



Llais Y Derwent



Rhif 52 Tachwedd/ Rhagfyr 2021 Papur Bro i Ddysgwyr Cymraeg a Chymry alltud Canolbarth Lloegr 25c

Croeso!

Croeso i rifyn olaf eleni o Lais y Derwent. Mae hi wedi bod yn flwyddyn siomedig ynglyn a symud ymlaen o haint Covid-19. Nid oedd yn bosib ailddechrau cyfarfodydd Cylch Dysgwyr Derby wyneb yn wyneb. Dyn ni'n mynd i barhau efo cyfarfodydd ar lein gan ddefnyddio Zôwm. Mi fydd ambell daith cerdded answyddogol yn cael ei drefnu yn ystod 2022, ond os dych chi am gael



gwahoddiad i rheiny bydd rhaid i chi e-bostio menteriaithlloegr@mail.com i gael eich enw ar y rhestr.

Aeth criw o bump ohonom allan i gerdded o Faes Parcio Tŷ Peiriant Middleton Top ger Cromford i Greigiau Harboro' ar Sadwrn 30 Hydref. Wrth edrych tuag at y gorllewin tra oedden ni ar ben Creigiau Harboro roedd hi'n bosib gweld y Wrekin a'r Long Mynd.

Cawson ni hwyl yn siarad Cymraeg ar y daith ac wedyn yn Nhafarn Y Cwch, Cromford. Mae trefnu taith gerdded yn ffordd dda o gwrdd yn ddiogel efo ffrindiau!

Mae'n braf gweld bod 'na grŵp newydd o ddysgwyr ym Birmingham sy'n trefnu cyfarfod mewn tafarn yng nghanol y ddinas. Hefyd bod sesiwn siarad Manceinion wedi ailddechrau cwrdd unwaith y mis yng nghaffi Oriel Celf Manceinion yng nghanol y ddinas. Does dim byd gwell na chael sgwrs dros banad i wella'ch Cymraeg!

Yn Belper, Swydd Derby mae grŵp Cymraeg Canolfan Cymunedol y Strutt wedi ailddechrau cwrdd yn wythnosol hefyd. Gobeithio mi fydd hi'n bosib i Gymdeithas Cymry Nottingham dechrau cyfarfodydd 'go-iawn' cyn bo hir, ond yn y cyfamser maen nhw'n dal i gwrdd ar lein unwaith y mis.

Mae ambell aelod o Gylch Dysgwyr Cymraeg Derby a Chymdeithas Cymry Nottingham wedi bod yn sâl yn ddiweddar. Hoffwn ddymuno gwellhad buan i bawb ohonynt.

Mae Llais y Derwent yn dibynnu ar bobl i ysgrifennu erthyglau i ni yn wirfoddol. Felly os oes newyddion am eich stori dysgu Cymraeg neu am ddigwyddiadau sy'n cael ei drefnu yn eich ardal rhowch wybodaeth i ni trwy anfon neges e-bost. Yn olaf, hoffwn ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd!

Jonathan Simcock

menteriaithlloegr@mail.com



Diwedd cyfnod

Rhyw noswaith yn ddiweddar bu Maureen fy ngwraig a minnau yn gwyllo'r ffilm Ffrangeg "Les Gardiennes" - "Y Gwarchodwyr" efallai yn Gymraeg - ar y teledu. Thema'r ffilm oedd hanes teulu o fenywod yn rhedeg fferm yn nghefn gwlad Ffrainc yn ystod y rhyfel byd gyntaf pan oedd y penteulu a'i fab i ffwrdd yn y rhyfel. Beth oedd yn fy nharo i wrth edrych ar y ffilm oedd gymaint o arferion amaethyddol oedd wedi goroesi i gyfnod fy mhientyndod yn y 40au a'r 50au cynnar yng nghefn gwlad Sir Gaerfyrddin. Er engraifft roedd y menywod yn godro â llaw; rwy'n cofio godro â llaw oedd y drefn pan roedd fy nhad yn ffermio cyn iddo brynu peiriant godro Alfa Laval rhywbryd yn y pumdegau.

Bu fy nhadcu William Griffiths gyda fy mamgu, a fy nhad James Price gyda fy mam, a fy mrawd Eirwyn a fy chwaer-yn-nghyfraith Justina yn ffermio yn eu tro ar fferm Carreg-Cennen ym mhentre Trap, tua thair milltir o Landeilo yn Sir Gaerfyrddin am gyfnod o ddros ganmlynedd rhyngddynt. Yn awr yn 2021 mae'n debyg bydd cysylltiad y teulu â'r fferm hon yn dod i ben; mae fy mrawd Eirwyn wedi cyrraedd ei bedwar ugain oed ac wedi penderfynu rhoi'r ffidil yn y tô a does neb yn y teulu am gymryd yr awenau; fferm fryniog

yw'r fferm heb lawer o dir gwastad ac yn cynnwys bron gant o erwau wedi eu rhannu rhwng dri ar ddeg cae; mae erwau Cymraeg ar bob cae; dyma dri engraifft o'r erwau, Ca' Banal (banadl), Ca' Cerdinen a Bwlfa Isaf.

Cefais fy ngeni yn y ffermdy a byw yno cyn hedfan o'r nyth yn ddeunaw oed; mae'r atgofion o'r fferm yn felys ac yn fythol fyw i mi; roedd gan fy nhad tua ugain o "dda godro" ac yn gwerthu'r llaeth i'r Bwrdd Masnachu Llaeth; roedd hefyd yn cadw rhyw ugain o foch a tua ddaugant a hanner o ddefaid. Roedd fy mrawd yn helpu gyda'r godro yn ddeg oed. Pleser mawr i mi oedd cael mynd yn y bore weithiau ar y cart a cheffyl a'r churns yn llawn llaeth i'r stand ar ochr yr hewl cyn byddai'r lori llaeth yn dod heibio i gario'r llaeth i ganolfan llaeth Ffairfach* ger yr orsaf; mae gorsaf Ffairfach wedi diflannu erbyn hyn ac hefyd y ganolfan llaeth neu'r 'ffatri la'th' fel ei gelwid gan y ffermwyr lleol. O fan hynny roedd y llaeth yn cael ei ddanfôn cyn belled â Llundain ar y trê'n. Rwy'n cofio'r



cynnwrf pan gyrhaeddodd y tractor cyntaf ar y fferm tua 1950; un lwyd Ferguson oedd hi ac yn fach iawn o gymharu â'r behemothiaid sydd yn bodoli heddiw; ac fel pob crwt arall o deulu amaethyddol pryd hynny dysgais yrru'r tractor yn ddeg oed. 'Doedd dim sôn am rheolau lechyd a Diogelwch pryd hynny. Yn y ffilm roedd y menywod yn defnyddio ychen i dynny'r aradr ac ati ond mae rhaid mynd yn ôl

o leia dwy ganrif er pan roedd defnyddio ychen i weithio ar y fferm yn arferol yng Nghymru a Lloegr. Diddorol hefyd oedd sylwi yn y ffilm fod y menywod yn defnyddio ffust i wahanu'r grawn o'r yd, hen arferiad ledled byd sydd yn mynd yn ôl ganrifoedd.

Roedd rhod ddŵr ar y fferm, relic o'r oes Fictoraidd mae'n debyg ac roedd fy nhadcu yn defnyddio'r rhod i rhoi pŵer i'r peiriannau amaethyddol fel y dyrnwr a'r nithiwr. Erbyn fy nyfodiad i'r byd nid oedd y rhod yn cael ei defnyddio ar hen olwyn haearn yn segur ond roedd y llyn bach (pound oedd y gair tafodeithol, benthyciad o'r Saesneg pond), lle roedd y dŵr yn cael ei gronni yn dal i fod. Un diwrnod roedd fy mrawd a minnau, fi yn bedair oed ac yntau yn chwech, yn casglu mwya'r duon ar ochr y pound. Digwyddais gwmpo i mewn i'r dŵr a oedd tua lathen o ddyfnder ac felly mwy neu lai dros fy mhen a'm clustiau; nid oeddwn wedi dysgu nofio; yn ffodus iawn roedd digon o synnwyr gan fy mrawd i redeg i'r tŷ a gweiddi ar fy mam "Dewch yn gloi Mami, mae Howell wedi cwmpo miwn i'r pound"; onibai am hynny mae'n bosib ni fyddwn i yma heddiw yn 'sgrifennu'r ychydig eiriau hyn.

O N Rhag ofn fy mod wedi rhoi'r syniad i chi fy mod yn rhugl yn y iaith Ffrangeg ac yn deall pob gair o'r ffilm yn y Ffrangeg gwreiddiol, wel na, nid wyf am eich twyllo ond roedd yr isdeitlau yn fendigedig! Salutations aux lecteurs de Voix de La Derwent.

Howell Price

(yn byw yn Nottingham)

(wedi ymddeol fel athro ond ffermwr drwy reddf)

*pentre ger Llandeilo

Geirfa

diwedd cyfnod - end of an era

cefn gwlad - heart of the country

godro â llaw - to milk by hand

dod i ben - come to an end

rhoi'r ffidil yn y tô - literally 'put the fiddle in the roof space' = call it a day

da godro - milking cows

dyrnwr - threshing machine

iechyd a diogelwch - health and safety

rhod - waterwheel

ffust - flail.

SIARADWYR A DYSGWYR Cymraeg

GUIDED WALK FOR WELSH SPEAKERS AND LEARNERS



Taith Gerdded Cymraeg

Os dych chi eisiau cymryd rhan mewn teithiau Cerdded Cymraeg yn ardal Y Peac a Swydd Derby anfonwch neges ebost at menteriaithlloegr@mail.com

Cymdeithas Cymry Nottingham



www.nottinghamwelshsociety.org.uk

O Ddrws Cefn y Tŷ

Na, nid hen hanes ydy Covid yn anffodus ac mae atgofion diweddar y cyfnod clo yn y cof hefyd. Cytunwn ni i gyd, tybiaf, fod y sefyllfa wedi bod yn un drist a phoenus. Edrychwn ni ymlaen at ddyfodol gwell a gobeithio ein bod ni wedi dysgu rhywbeth o'r hyn sy wedi digwydd. Bydd yn rhan o hanes a dw i'n siŵr y bydd plant yn dysgu am y pandemic mewn ysgolion yn yr un ffordd y dysgodd plant am y Pla Mawr a Ffliw Sbaen yn y gorffennol. Yn ogystal â'r ymdrech cenedlaethol (a rhyngwladol) i oresgyn effeithiau enbyd Covid, mae'n ymddangos trwy siarad â phobl dw i'n eu nabod ein bod ni wedi cymryd camau i ymdopi a'r sefyllfa, gwneud amser i ddysgu sgiliau newydd a mwynhau'r hyn sy gynnon ni.

Yn bersonol, treuliais 6 mis cyntaf y flwyddyn yn ysgrifennu a recordio albwm o ganeuon a fydd yn cael ei rhyddhau'n ddigidol cyn y Nadolig. Oedd yn gryn dipyn o waith a ddaeth a chyfrifoldebau sylweddol, ond oedd y profiad yn ysbrydol a therapiwtig. Cafodd nifer fawr o'r caneuon eu hysbrydoli gan y cefn gwlad. Mae'r cyfnod clo wedi fy nysgu fy mod i'n lwcus o gael cefn gwlad hyfryd ar y stepan drws (dim ond 5-6 milltir i ffwrdd mae ffin Parc Cenedlaethol Peak District). Yn ogystal â cherdded llwybrau newydd, penderfynais gerdded yr un llwybrau dros y tymhorau gwahanol er mwyn gweld sut mae pethau'n newid. Mae'n arbennig o weld llygad Ebrill yn tyfu wrth ochr nant o dan goed fel y bedwen arian ac onnen ym mis Mawrth a mis Ebrill. Ym mis Mai, mae'r blodau

siriol hyn yn ildio eu lle i glychau'r gog, fel y tasai natur yn gweithio ei ffordd tuag at ryw ddiweddglo trawiadol pan welwn ni rosod gwyllt, gwyddfudid a blodyn neidr o boptu'r un nant. Yr hyn sy'n fy rhyfeddu ydy sut bydda i'n cael fy hun yn meddwl am nodweddion tymhorau a fu neu dymhorau sydd i ddod wrth fwynhau'r hyn sy'n cael ei gynnig gan y tymor presennol. Mewn geiriau eraill, mae pethau arbennig am bob tymor ac mae'n braf meddwl am yr hyn sy'n dod efo'r tymhorau. Ie, dw i wedi gwneud y mwyaf o'r hyn sy'n cael ei gynnig gan gefn gwlad fy milltir sgwâr ac mae hi wedi bod yn gymorth mawr i mi.

Nid yn unig y pethau hyn a ddaw a phleser i mi. Mae rhywbeth arbennig am gerdded pellter sylweddol o'r tŷ. Mae'n anodd credu weithiau y medra i gerdded am 45 munud o'r tŷ ac, ar ddiwrnod clir, gweld y Long Mynd yn swydd Amwythig. Mewn ffordd, mae'n anoddach fyth meddwl bod y ffin a Chymru ychydig o filltiroedd tu hwnt i'r brynau cysglyd hynny. O'r un lle, gellir gweld swydd Nottingham a brynau Charnwood yn swydd Caerlŷr. Dim yn ddrwg o gwbl! Fel arfer, bydda i'n gweld ychydig o bobl ac yn aml, fydda i ddim yn rhannu'r llwybrau efo neb. Yn bersonol, dw i'n mwynhau cerdded ar fy mhen fy hun gan fy mod i'n gallu cerdded i le dw i eisiau mynd ac ar gyflymder sy'n fy mhlesio. Medra i feddwl am syniadau am ganeuon a phethau dw i'n eu hysgrifennu. Hefyd dw i'n tueddu i sylwi'n fwy ar yr hyn sydd o nghwmpas. Yn anad dim, medra i wirioneddol amsugno awyrgylch a heddwch y cefn gwlad. Mae'n ddihangfa, am wn i ac mae hynny'n rhywbeth fy mod i mor ddiolchgar o'i gael pan fydd angen.

Nid yr un fath o bobl dan ni a dan ni'n hoffi pethau gwahanol. 'Pawb at y peth y bo', chwedl nhwthau a 'hwre am

hynny!', baswn i'n ei ddweud. Mae hi wedi bod yn ddiddorol o glywed yr hyn mae pobl eraill wedi bod yn ei wneud dros y cyfnod clo a dw i'n siŵr bod pawb wedi cwrdd â mwy o ffrindiau newydd trwy ffyrdd rhithiol na thrwy gwrdd yn y byd go iawn! Y byd rhithiol. Rhywbeth arall sy wedi esgor ar bosibiliadau newydd, ond rhywbeth a allai fod yn bwnc erthygl arall. Does gen i ddim lle na'r arbenigedd i'w drafod yma! Afraid dweud, dw i wedi manteisio ar y dechnoleg hon yn y gwaith ac yn fy mywyd tu allan i'r gwaith fel ei gilydd.

Gobeithio eich bod chi wedi dod o hyd i rywbeth sy wedi helpu dros y cyfnod clo. Efallai eich bod chi wedi defnyddio'r amser i wella sgiliau neu i ehangu diddordebau. Beth bynnag sy wedi digwydd, bu cyfleodd i gyfoethogi ein bywydau, cael cysur ac ehangu ein gorwelion hyd yn oed os mai 'gorwelion rhithiol' oedden nhw! Cerdded a cherddoriaeth ydy fy mhethau ac yn aml, medra i gyfuno'r ddau beth.

Martin Coleman
Clay Cross

Cwyn y Gwynt.

Cwsg ni ddaw i'm hamrant heno,

Dagrau ddaw ynghynt.

Wrth fy ffenestr yn gwynfannus

Yr ochneidia'r gwynt.

Codi'i lais yn awr, ac wylo,

Beichio wylo mae;

Ar y grwydr yr hyrddia'i ddagrau

Yn ei wylltaf wae.

Pam y deui, wynt, i wylo

At fy ffenestr i?

Dywed im, a gollai tithau

Un a'th garai di?

J Morris Jones



Y Dynion Haearn, Llanbedrog

Wrth gyrraedd traeth Llanbedrog o'r pentref, mae'n amhosib peidio â sylwi ar y llethrau coediog ym mhen agosaf y traeth sy'n ymestyn yn serth i fyny at lwyfandir grugog. Mynydd Tir y Cwmwd ydy enw'r mynydd, ac mae ganddo hanes diddorol ei hun. Mae'r enw "cwmwd" yn mynd yn ôl i gyfundrefn ganoloesol i barthu'r tir ("hundred" oedd yn cael ei ddefnyddio am beth tebyg yn Lloegr). Yn y 19eg ganrif sefydlwyd tair chwarel ithfaen ar ochr atfor y mynydd, ond fe'u caewyd yn y 1950au. Mae sawl adeilad adfeiliedig a gweddillion y glanfeydd yn dal i'w gweld. Erbyn heddiw mae'r mynydd yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac yn rhan o Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol.

Wrth sefyll ar y traeth mae'n bosib gweld amlinell dyn ar ben y mynydd. Delw fetel dyn ydy hi. Mae'r ddelw yn sefyll wrth ymyl y clogwyni, yn edrych dros y môr yn ôl at draeth Llanbedrog. Mae'n werth yr ymdrech i ddringo i fyny i weld y ddelw a'r golygfeydd. Dyma un o'm hoff olygfeydd yng Nghymru. Yn ogystal â Llanbedrog, ceir gweld

mynyddoedd yr Eifl (ac Eryri yn y pellter), arfordir Pen Llŷn tuag at Bwllheli, a hefyd dros fae Ceredigion tuag at Harlech a'r Bermo.

O'r traeth gellir dilyn llwybr heibio'r hen fythynnod pysgotwyr ar lan y môr ac i fyny cyfuniad o risiau a chreigiau yn syth i'r ddelw – mae gen i lu o atgofion hapus o wneud hyn efo'm taid



pan oeddwn i'n fachgen bach. Fodd bynnag, mae'r llwybr hwn yn serth ac yn eithaf peryglus. Mae llwybr hirach a haws i'w ddilyn o oriel Glyn y Weddw (rhy hawdd o lawer i fachgen bach a'i daid dioddefgar, wrth gwrs – dilynais y llwybr hwn am y tro cyntaf eleni!).

Yn wir, dyma'r drydedd ddelw i'w gweld yn y fan. Credir mai blaenddelw bren wedi'i adennill o longdrylliad oedd yr un gyntaf, osodwyd ar ben y mynydd tua 1920 gan berchennog Plas Glyn y Weddw ar y pryd, dyn o'r enw Solomon Andrews. Dyn busnes oedd o, ac mae'n debyg iddo eisiau defnyddio'r ddelw i ddenu twristiaid i'r ardal. Fo, hefyd, sefydlodd tramffordd o Bwllheli i gludo'r twristiaid i Lanbedrog.

Llogwyd y ddelw gyntaf yn ulw yn y 1970au. Dichon y cafodd ei rhoi ar dân

gan fellt, ond mae'n fwy tebyg mai fandaliaid oedd yn gyfrifol. Roedd rhaid bod cyfod byr heb ddelw, ond comisiynwyd cerflunydd lleol i greu delw newydd, a osodwyd i'w lle ym 1980. Dyn haearn oedd hwn, a dyma oedd y dyn dw i'n cofio ymweld â fo mor aml pan o'n i'n ifanc. Yn swyddogol, cyfeiriwyd ato fel dyn haearn ond fel "tin man" dw i'n cofio i bobl gyfeirio ato. Dw i ddim yn siŵr beth oedd tarddiad y llysenw. Rhaid nad oedd y dyn wedi'i greu o dun oherwydd iddo rydu yn y pen draw!

Felly rhwd oedd tynged yr ail ddelw, ac erbyn troad y mileniwm doedd dim ohoni ar ôl. Yn ffodus, roedd diddordeb lleol i ailosod delw arall yn yr un fan, ac eto comisiynwyd crefftwyr lleol i greu delw. Gosodwyd y drydedd ddelw yn 2002. Dyma'r un sy'n sefyll yno hyd heddiw. Dw i'n meddwl mai dur ydy deunydd y ddelw hon. Mae'n edrych yn ddigon cryf ar hyn o bryd ond mae'n dechrau dangos tipyn bach o rwd – felly baswn i'n awgrymu ymweld â hi cyn iddi ddechrau diflanu.

(Diolch i'r safle llanbedrog.info am rai manylion hanesyddol.)

Greg Pearce
Caergrawnt

TYFU
CYMRAEG
grow your welsh

www.tyfu-Cymraeg.co.uk



Hynafiad Enwog!

Oes gennych unrhyw hynafiad enwog yn eich teulu? Wel, yn ôl fy mrodyr, mae gennym menyw dewr iawn yn ein hanes ni, a'i henw yw Jemima Nicholas.

Tua diwedd y ddeunawfed ganrif, roedd teulu brenhinol Ffrainc wedi cael ei llofruddio a Napoleon oedd pennaeth y fyddin. Roedd y poblogaeth yn awyddus i wledydd eraill ymuno yn y chwyldro ac yn y syniad o gael eu rheoli gan 'Cyngor'.

Felly, bron i 225 mlynedd yn ol, ym mis Chwefror 1797, fe ddaeth pedair llong a dros fil o filwyr o dan arweinyddiaeth William Tate, draw o Ffrainc tua Bryste. Yn anffodus, chwythodd y gwynt y llynges hon tua arfordir Sir Benfro a glanniodd y llongau ar draeth Carreg Wastad. Dringodd yr ymwelwyr y clogwyni uchel a sefydlu eu hunain ar fferm Trehywel. Rhyw ddyddiau ynghynt, roedd llong o Bortiwgal wedi taro yn erbyn creigiau

Abergwaun a'r pobl lleol wedi dwyn yr holl win oedd arni yn gyflym iawn. Wedi darganfod y stor o win ar y fferm, aeth y milwyr ati i yfed cyn gymaint fel ymhen ychydig amser roeddent i gyd yn feddw gaib.

Daeth y newyddion am y fyddin o Ffrainc i glustiau Thomas Knox, arweinydd y fyddin yn Abergwaun a gyda dynion yr Arglwydd Cawdor, aethant i gyfarfod y Ffrancwyr. Roedd pobl o'r ardal wedi casglu pob math o 'arfau' o'r ffermdai o amgylch, i wynebu yr ymwelwyr a Jemima Nicholas yn un ohonynt a hi wnaeth ddarganfod rhai o'r Ffrancwyr ar y fferm. Diolch i effaith yr alcohol arnynt, medrodd Jemima mynd â nhw i'r carchar yn Abergwaun.

Cyn ildio i'r milwyr lleol, fe welodd Tate fyddin arall yn gorymdeithio ar fryniau cyfagos - ond nid milwyr oeddent ond yn hytrach menywod yr ardal wedi gwisgo yn eu clogau coch a hetiau tal cymreig er mwyn twyllo Tate a'i ddynion. Wedi ildio'n gyflym iawn, cludwyd Tate a'i ddynion i'r carchar yn Hwlfordd.

Yn 1832, bu farw Jemima Nicholas, 35 o flynyddoedd ar ol y goresgyniad diwetha ym Mhrydain a charreg goffa iddi ym mynwent yr eglwys yn Abergwaun. Mae hi hefyd, i'w gweld yn amlwg ar y tapestri hyfryd a gafodd ei greu i ddatlu'r 200 mlynedd ers y glaniad. Mae e nawr mewn oriel arbennig yn llyfrgell y dre.

Ie, menyw dewr yn ein hanes teuluol.

Delyth Neill

Aston-on-Trent a Chydwelli.

Geirfa

hynafiad - ancestor

llofruddio - to murder

chwyldro - revolution

llynges - fleet

cyfagos - near

goresgyniad - invasion

gorymdeithio - to march

Pan oeddwn fachgen

Pan oeddwn fachgen yr oedd bro ryfeddol yr ochr draw i'r mynydd. Pan oeddwn myfi'n fachgen y fro ryfeddol oedd yr ochr draw o'r 'Bristol Channel' ac rwy'n sôn am gymoedd De Cymru neu fe'i galwyd gyda ni 'home'.

Fe ges i fy ngeni amser maith yn ôl yn Paignton, Dyfnaint Lloegr. Cymraes Cymraeg oedd fy mam i ond Sais o Ddyfnaint oedd fy nhad i. Felly rwy wedi teimlo fel rhyw fath o gi mongrel fy holl fywyd. Roedd gyda fy nhad siop trefnydd gwyliau. Ar y dechrau roedd y busnes yn llwyddiannus ond ni pharhaodd, ac yn y diwedd roedd yn rhaid iddo fe gweithio mewn ffatri. Doedd dim llawer o arian gyda'r teulu ac felly roedd y syniad o wyliau tramor mäs o'r cwestiwn.

Ond dim ots, aethom ni i Dde Cymru er mwyn bod yn aros gyda fy mam-gu a'm tad-cu. Yng Nghymru roedd gyda fi lawer o gefndryd i chwarae ganddyn nhw. Un o chwech o blant oedd fy mam! Mewn diwrnod neu ddau, fe gol-lais i fy acen posh Seisnig a dechreuais siarad gyda'u acen Gymreig. Yr oeddem ni yn rhan o'r genhedlaeth golledig. Cymraeg oedd mamiaith fy mam-gu a'm tad-gu ond roedden nhw'n siarad yn Saesneg gyda'u plant. Roedden nhw'n credu bod yn rhaid siarad Saesneg i fwrw ymlaen mewn bywyd. Dyma sut y buodd farw'r iaith yn y cymoedd. Fodd bynnag, ni anghofiodd fy mam ei hiaith Gymraeg. Pan oedd hi'n ferch, roedd hi'n dysgu yn yr ysgol Sul mewn capel Cymraeg ac yn siarad yr iaith yno.

Mwynheais i yr hafau yng Nghymru. Buon ni'n chwarae ar y tomenni slag ac yn pysgota am lyswennod yn y nant brwnt a oedd yn rhedeg drwy'r dyffryn. Bob dydd Sul fe ddeffron ni i arogl ba-

ra lawr yn ffrio gyda bacwn. Pe bydden ni'n gweld defaid yn yr ardd, bydden ni'n gweiddi 'sheep sheep' a byddai fy mam-gu yn rhedeg mäs i'w dychryn. Roedd fy nhad-cu yn löwr glo ac yn arddwr brwd. Roedd ganddo fe winwydden yn ei dŷ gwydr yr oedd yn falch iawn ohono fe. Rwy'n ei gofio'n eistedd yn ei gadair a oedd wedi'i stwffio â gwallt ceffyl. Roedd gwallt y ceffyl yn arfer ticlo fy nghoesau. Bu farw yn y gadair honno yn pesychu gwaed fel cynifer o lowyr Cymru.

Yn ddiweddarach, fe ddechreuais i ddysgu'r Ffrangeg yn yr ysgol ramadeg. Dyma a ddechreuodd fy nghariad at ieithoedd. Erfyniais i ar fy mam i ddysgu Cymraeg i mi. Doedd gyda hi ddim digon o adnoddau i wneud hyn. Er engraift, doedd gyda hi ddim unrhyw wybodaeth am ramadeg Cymraeg. Fodd bynnag, llwyddodd i ddysgu rhai ymadroddion i mi, llawer o eiriau ond gorau oll o'r holl emynau a chaneuon gwerin.

Fe ddysgodd hi lawer o emynau a chaneuon gwerin i mi hefyd. Fe allwn i ganu 'Calon Lân' mewn Cymraeg yn berffaith cyn i mi hyd yn oed wybod beth oedd ystyr y geiriau.

Pan oeddwn i'n oedolyn, astudiais Sbaeneg, Saesneg a Chymraeg i ddechreuwyd yn y brifysgol yn Abertawe. Yr hyn roeddwn i wir eisiau oedd gwneud gradd yn y Gymraeg. Roedd hwn yn llwybr anodd gan fod yr holl fyfyrwyr eraill naill ai'n famiaith Gymraeg neu o leiaf wedi cael ail iaith Safon Uwch. Serch hynny, anfonodd y brifysgol fi ar Gwrs Wlpan wyth wythnos yn Llanbedr Pont Steffan. Gweithiais i'n galed a dysgais i'n dda. Hoffwn i ddweud imi wneud yn dda yn y brifysgol, ond y gwir yw fy mod wedi cael fy ngweld yn ormodol yng ngwleidyddiaeth Cymru a'r iaith Gymraeg. Fe ges i radd yn y diwedd serch hynny. Doedd fy syniad gwreiddiol i fod yn athro

mewn ysgol cyfrwng Cymraeg ddim yn gweithio mâs. Ar ôl ychydig fe wnes i ailhyfforddi fel athro Saesneg fel iaith dramor. Yn y pen draw des i yn hyfforddwr athrawon. Yn ddiweddar des i â diddordeb yn y Gymraeg eto pan ddechreuais i ddysgu ei chwaeriaith, Cernyweg. Nawr rwy'n saith deg un oed. Rwy wedi hyfforddi athrawon mewn dros dri deg o wahanol wledydd. Pwy a wŷr beth fydd y dyfodol yn ei ddwyn!

Robert Fletcher
North Tyneside



Llugaeron

Llugaeron! Byddwn wedi profi y ffrwythau bach disglair coch dros y Nadolig ac mae'n siwr bydd rhai ar ôl gan eu bod yn cadw'n dda mewn lle oer neu wedi'u rhewi.

Pwdin Llugaeron

100g (4owns) o fflŵr codi y grawn cyflawn

75g (3 owns) o fenyn

75g (3 owns) o siwgr brown golau

25g (owns) o gnau almon wedi ei malu (ground)

2 wŷ ac ychydig laeth

50g (2 owns) o lugaeron ffres wedi eu torri'n hanner

Llond llwy de o bowdr codi

Llond llwy bwddin o flâs fanila

Llond llwy fwrdd o saws melys llugaeron.

Hufennu'r menynd a'r siwgr hyd y bydd yn ysgafn ei ansawdd a golau ei liw.

Curo'r wyau a'u hychwanegu at y cymysges uchod gan droi yn araf gyda llwy bren.

Yna ychwanegu y gweddill o'r cynhwysion gan eu troi yn drylwyr a chael tewdra ysgafn. Iro basin a gosod y saws llugaeron ar waelod y basun. Gorchuddio gyda'r cymysgedd ysbwng.

Gellir pobi neu stemio y pwdin am rhyw awr i'r ddau dull.

Tymheredd y ffwrn 180°C neu Nwy 4.

Mwynhau'r pwdin gyda cwstard poeth.

Dyma rysâit diddorol gan roddi blas gyda unrhyw fwyd safri.

Llugaeron Sbeisiog

400g (pwys) o lugaeron

Hanner hyd bys bach o sinsir ffres wedi ei bilio

Coes sinamon

Pelen nytmeg

6 clof

200g (½ pwys) o siwgr demarara

300mls (½ peint) o finegr seidr

Clymu y sbeis i gyd mewn mwslin.

Rhoi y llugaeron a'r sbeis mewn sosban gyda'r finegr. Lledferwi hyd bydd croen y llugaeron yn hollti. Ychwanegu'r siwgr a lledferwi ymhellach am 20 munud.

Tynnu'r mwslin allan o'r sosban ac arllwys y cymysgedd sbeisiog i jariau poeth.

Mwynhau nes ymlaen gyda unrhyw fwydydd safri.

Eluned Mai
O'r 'Cysylltydd'

Y Tri Car



Yr oedd tri car yn fy mywyd cynnar, cofiwch ganed fi ar y cyntaf o Ionawr 1935, ac fe ddechreuodd yr ail rhyfel byd mewn pedair blynedd. Y cyntaf o'r tri oedd wedi ei gofrestru fel DE8170 o dan Gyngor Sir Benfro, ond roedd y car wedi'i gynyrchu yn Bradford. Dw i ddim yn siwr pwy oedd wedi talu amdano, prun ai Tadcu neu Nhad, ond yn sicr Dad oedd y gyrrwr. Dad oedd wedi mynd lan i Bradford gyda tren ac wedi ei yrri nol i Drefdraeth yn ofalus iawn, siwrne hir yn y dyddiau hynny, ac roedd yn bwysig fod yr injan ddim yn cael ei or-wresogi a phlygi'r cylinder head. Roedd yn gar arbennig Jowett, du y lliw a pedwar drws iddo, ac agoriad bach sgwar yn y to i adael y gwres allan. Yr oedd garej pren arbennig wedi'i adaeladi'n arbennig i'w gadw'n sych a diddos.

Does gen i ddim llawer o gof am yr achlysur ond mae'n debyg fod Dad a minnai wedi mynd am drip yn y Jowett i'r Traeth Mawr un Sadwrn fel gallai Mam baratoi cino, ac y ein dilyn r'oedd dyn yr AA ar motor beic melyn a'r side-car tair olwyn. Sylwodd dyn yr AA fod parcel bach wedi syrthio allan i'r glas-

wellt o'r drws cefn ond ni sylwodd y gyrrwr! Fi oedd hwnnw-dim deddfau lechyd a Diogelwch pryd hynny. Yn ffordus dim niwed i'r crwt chwaith. Yn ystod y rhyfel byd 1939-45 doedd dim petrol ar gael i rhedeg y car felly arhosodd yn y garej pren yn gwmni i'r bocsys tatws a dahlias oedd yn cyscodi oddiw'rth oerni'r gaeaf ond wedi'i jacio i fynny gyda blocs pren i bob olwyn o dan yr brecs.

Y ddau gar arall oedd yr un model Morris 8 ADE 423 a ADE 746 y ddau wedi'i cofrestru eto gan Sir Benfro. Y perchnogion oedd Wncwl Willie (hanner brawd Tadcu yn byw yn Blaenffos Ingli ar mynydd Bedd Morris) ac Ewythr Owen oedd yn byw drws nesaf yn Delfryn. Yn ystod y rhyfel blociwyd ADE746 i fyny, felly y Jowett hefyd, ond gan fod wncwl Willie wedi'i ddyrchafu i arwain yr Home Guard lleol roedd medru cael gafael ar docynnau petrol. Mae cof gennyf o fynd gyda'r tri brawd yn ADE 423 yn gynnar yn ystod y rhyfel i'r maes parcio uwchben Kielhouse Dinas i weld y confoi oedd wedi ymgynnull ym Mae Abergwaun, efallai fod llong Nhad yn ei mysg, yn dod a wefr yn ôl i mi nawr!



Ar ôl y rhyfel daeth yr ADE 746 i'r brig yn fy mrofiad gan fod Lucy a'i gŵr Owen yn cadw'n agos at deulu estyngedig Lucy yn Y Rhondda ac hyd yn oed cyn belled â Leominster a Droitwich, ac mi gefais y cyfle i fynd gyda hwy nifer o droion. Un trip arall sy'n sefyll allan yn y cof gyda Wncwl

Willie yn ADE 423 oed ar hyd yr A40 i Aberhonddu i bencadlys y South Wales Borderers ble'r oedd ei pencadlys ac yna dros Bannau Brycheiniog i Hirwaun a Treherbert yn y Rhondda ac yno yn aros gyda wncl Eli a Anti Jane a Wil am rhyw wythnos yn 87 Bute Street, yna'n dychwelyd i Drefdraeth via'r Eisteddfod Genedlaethol ym Mhen y bont-ar Ogwr, dyna beth oedd profiad gwych.

Dysgais yrru tractor Fordson cyn bod yn ddeg oed ar fferm Waunfach hen gartref Mam, drwy ladd gwair torri'r llafur i'r cynhaeaf etc., ond dysgais yrru car gyntaf ar lonydd cul Bedd Morris ar ADE 423 a chymryd yr arbrawf yn Hwlfordd, a bod yn llwyddiannus ar yr ail gais!

Gwynne Davies
Bramcote, Nottingham
Hydref 2021

Rhugl neu Be?

Wel, helo Dysgwyr a gaf i ddechrau wrth ddweud Diolch mawr i chi am benderfynu dysgu ein hiaith hyfryd. Ac ers pryd dach chi wedi bod yn dysgu? Blwyddyn, dwy flynedd, tair neu mwy? Tric yw'r cwestiwn yna achos ar ôl y flwyddyn gyntaf mae gynnoch chi ddigon o Gymraeg i ddysgu wrth ymarfer, felly y tro nesaf mae rhywun yn gofyn y cwestiwn y ffordd gorau i ymateb yw "Mi wnes i ddechrau dysgu tair blynedd yn ôl a dw i wedi bod yn ymarfer am ddwy flynedd erbyn hyn." Yn y ffordd yna dach chi'n ateb y cwestiwn yn gywir ond ar yr un pryd yn dweud wrth y person sydd yn eich holi eich bod chi yna i gael sgwrs. Yn rhy aml mae'r Cymry, os maen

nhw'n gweld chi fel dysgwyr, yn rhy barod i ddweud "Da iawn chi." ac wedyn mynd ymlaen i siarad gyda chi yn Saesneg. Dydy hynny ddim yn eich helpu i symud ymlaen gyda'r iaith. Peth arall hefyd, peidiwch â phoeni am bryd byddech chi'n rhugl.

Blynyddoedd yn ôl pan o'n i'n trefnu teithiau cerdded i ddysgwyr ym Mhowys roeddwn i'n siarad efo un o'n cyd gerddwyr ac er ein bod ni wedi siarad dim ond Cymraeg gyda'n gilydd am ychydig o flynyddoedd roedd hi'n mynnu nad oedd hi'n rhugl. Gofynnais iddi pam oedd hi'n dweud hynny. "Dw i ddim yn gwybod pob gair eto" oedd ei hateb. Ers hynny dw i wedi teimlo bod y syniad o ruglder yn effeithio'n negyddol ar hunan-hyder dysgwyr. Felly pam na wnawn ni newid agwedd tipyn bach a meddwl am y teimlad o fod yn gyfforddus gyda'r iaith yn hytrach na chadw at y syniad o ruglder. Rŵan pa golofn wnaethoch chi ddarllen cyntaf, yr un Gymraeg neu'r un Saesneg? Os y Saesneg, twt, twt, dylech chi ddangos mwy o hyder a chyn symud i'r dudalen nesaf darllenwch y Gymraeg ar unwaith! Os y Gymraeg, da iawn, marciau llawn ac ewch ymlaen.

Bob Evans
www.gydangilydd.cymru



Holiaduron am Yr Iaith Gymraeg

Yn ddiweddar dw i wedi gosod sawl holiadur ar wefan FB Menter Iaith Lloegr ynglŷn â phynciau sy'n berthnasol i'r iaith Gymraeg.

Y cyntaf o rheiny oedd holiadur yn gofyn am farn aelodau Menter Iaith Lloegr am ymestyn gwersi Cymraeg i blant ysgol yn Lloegr. Fel canlyniad cododd trafodaeth fywiog ymhlith y rhai a wnaeth ymateb.

Yn ddiddorol cafodd y post ei darllen gan tua 7000 o bobl. Waeth 690 yn pleidleisio o blaid y syniad fod hi'n peth da i blant ysgol yn Lloegr dysgu'r iaith. Wedi dweud hynny roedd sawl sylw gan bobl a oedd yn gweld amwysterau mawr yn wneud hyn oherwydd diffyg athrawon i ddysgu'r iaith i blant yn Lloegr. Mae'r farn yma yn ddilys wrth gwrs. Ar hyn o bryd does dim digon o athrawon i wneud hyn yn effeithlon yng Nghymru heb son am Loegr.

Holiadur arall fy mod i wedi'i osod ar wefan Menter Iaith Lloegr oedd yn gofyn sut wnaeth aelodau ddysgu'r iaith. Ar hyn o bryd mae Duolingo a Say Something in Welsh ar ben y rhestr.

Dw i hefyd wedi gofyn i aelodau o Fenter Iaith Lloegr i ddweud yn fras ym mha ardal o Loegr maen nhw'n byw. Ar hyn o bryd mae'r nifer mwyaf wedi ymateb East Midlands.

Yr holiadur diweddar dw i wedi'i osod yn gofyn cwestiynau am allu aelodau ar ran yr iaith Gymraeg.

Wrth gwrs mae gen i ddiddordeb mawr i weld ymatebion aelodau'r wefan i hyn i gyd. Dw i hefyd eisiau sbarduno trafodaeth am yr iaith, a sut mae pobl

wedi mynd ati i ddysgu'r Gymraeg.

Hefyd dw i eisiau sbarduno pobl i drefnu sesiynau siarad, gwersi Cymraeg, teithiau cerdded Cymraeg a digwyddiadau cymdeithasol Cymreig a Chymraeg eu hunan yn ei ardaloedd nhw.

Does dim nawdd swyddogol i weithgareddau yn Lloegr, felly mae rhaid i ni weithredu dros yr iaith yn wirfoddol yn ein cymunedau. Dyn ni wedi bod yn wneud hyn yn ardal Derby a Nottingham ers 2005. Hyd yn hyn dyn ni wedi cynnal cyfarfodydd Gweithdai misol, Ysgolion Undydd Cymraeg, Teithiau Cerdded, digwyddiadau cymdeithasol. Efo tipyn bach o ewyllys da, a hunanhyder mi fydd hi'n bosib gweld gwledd o weithgareddau ar draws Lloegr. Ewch ati! Gyda'n gilydd dyn ni'n gallu cael y maen i'r wal.

**Jonathan Simcock
Belper, Swydd Derby**

**Cenedl heb iaith
Cenedl heb galon!**



Llais Y Derwent

Os dych chi eisiau sgwennu erthygl
i 'Llais' cysylltwch drwy ffônio
07864 149078 neu anfon neges
ebost at
menteriaithlloegr@mail.com